# Atodiad 2: Adnoddau a gwefannau defnyddiol a chydnabyddiaethau

Mae’r nodiadau ar gyfer hyfforddwyr sy’n esbonio CCUHP, a’r cyd-destun Cymreig, yn cynnwys testun a addaswyd o’r adnoddau canlynol:

- Gwneud Pethau’n Iawn: Dehongli CCUHP
- Ein Hawliau: Ein Hanes – Pecyn Gwybodaeth

Gall yr hyfforddwr ddewis darparu’r canlynol fel taflen wybodaeth, neu eu hychwanegu at sleid.

- **Plant yng Nghymru** - Mae Plant yng Nghymru yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol plant yng Nghymru. Mae'r wefan hon yn cynnwys gwybodaeth am bolisïau yn ymwneud â Hawliau plant ac ystod o ddogfennau eraill sy'n ymwneud â gweithio gyda phlant a phobl ifanc.
- http://www.plantyngnghymru.org.uk/index.html
- Gwneud pethau’n iawn – Gwefan sy’n ymwneud â gweithredu CCUHP yng Nghymru. Mae’n cynnwys fideo a dolenni yn ogystal â phecyn adnoddau i hwyluso codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo CCUHP: http://www.uncrcletsgetitright.co.uk/default.aspx
- *Gwneud Pethau’n Iawn* - Mae hwn yn dynodi blaenoriaethau a chamau gweithredu allweddol i’w cyflawni gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn ymateb i Sylwadau Clo Pwyllgor y CU ar Hawliau’r Plentyn 2008. Ceir fersiwn lawn ohono yn ogystal â fersiwn arbennig ar gyfer pobl ifanc: http://cymru.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/gettingitright2009/?skip=1&lang=cy
- *Ein Hawliau: Ein Hanes* – Pecyn gwybodaeth yn trafod hawliau a CCUHP. Fe’i cynhyrchwyd gan Y Ddraig Ffynci, ac fe’i cynlluniwyd fel pecyn adnoddau ar gyfer athrawon, gweithwyr ieuenctid ac eraill sy’n gweithio gyda phobl ifanc 11 – 18 oed - http://www.funkydragon.org.uk/en/fe/page.asp?n1=1437&n2=2108
- Mae gan Gomisiynydd Plant Cymru ystod helaeth o adnoddau sy’n canolbwyntio ar hawliau plant yng Nghymru y gallai hyfforddwyr eu defnyddio: www.childcom.org.uk/
- Addysg UNICEF – mae UNICEF UK yn darparu cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer Gwobr Ysgolion sy’n Parchu Hawliau (RRSA). Nod y Wobr yw sicrhau bod dull gweithredu sy’n canolbwyntio ar hawliau plant wrth wraidd diwylliant ac ethos ysgol, er mwyn helpu pob plentyn i wireddu ei botensial. Ceir hefyd ystod eang o adnoddau addysgu, cynulliadau, cynlluniau gwersi a gweithgareddau gan UNICEF UK, y cyfan wedi’u datblygu o fewn fframwaith o hawliau a chyfrifoldebau a fydd yn cefnogi ysgolion i weithio tuag at y Wobr. - http://www.unicef.org.uk/education
- Mae gan Achub y Plant ddewis helaeth o adnoddau a gwybodaeth yn ymwneud â hawliau - www.savethechildren.org.uk / www.childrensrightswales.org.uk
- Mae Rhwydwaith Gwybodaeth Hawliau Plant (CRIN) yn fudiad annibynnol, anwleidyddol, anghrefyddol ac nid-er-elw sy’n ymgyrchu ac yn darparu gwybodaeth am hawliau plant - <http://www.crin.org/about/index.asp>
- Mae’r Gynghrair Fyd-eang dros Hawliau Plant a Chydraddoldeb Iechyd yn grŵp o fudiadau iechyd plant ac eiriolaeth amlddisgyblaeth sy’n ymroddedig i wireddu hawliau, iechyd a lles pob plentyn, o’u genedigaeth, drwy eu blynyddoedd cynnar a thrwy’r cyfnod o newid o flaenlencyndod cynnar i flaenlencyndod hwyr. Mae’r Gynghrair yn gweithio gyda mudiadau proffesiynol cenedlaethol a rhyngwladol eraill, unigolion a chymunedau i hyrwyddo’r agenda hon - http://allianceforchildrensrights.org/

- Ceir amrywiaeth helaeth o glipiau ffilm y gellid eu defnyddio i ategu'r hyfforddiant ar www.youtube.com. Er enghraifft, gwnaeth UNESCO gyfres o ffilmiau yn darlunio elfennau allweddol o hawliau plant, megis yr hawl i hunanfynegiant - www.youtube.com/watch?v=mV8L9xC0ZYA&feature=related <http://www.youtube.com/watch?v=mV8L9xC0ZYA&feature=related> a'r hawl i chwarae - www.youtube.com/watch?v=0wkAITSz4mg&feature=related <http://www.youtube.com/watch?v=0wkAITSz4mg&feature=related>
- Cyfweliad gyda Liam Cairns ynglŷn â phwysigrwydd sicrhau bod hawliau plant yn cael eu gosod o fewn cyd-destun yr agenda Hawliau Dynol - www.rightspace.org.uk/content/liam-cairns-talks-about-human-rights-children
- Ffilm am y cyflwyniad a roddodd plant a phobl ifanc o Gymru i'r Cenhedloedd Unedig - Ein Hawliau, Ein Hanes - www.youtube.com/watch?v=8cewcMOl6hw <http://www.youtube.com/watch?v=8cewcMOl6hw> (Yn fersiwn derfynol y ddogfen hon, ceir dolenni i adnoddau ffilm eraill)